Solicitors Regulation Authority | SQE

# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Cyfweliad a nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol (Ewyllysiau a Diewyllysedd, Gweinyddu ac Ymarfer Profiant)

*Adolygwyd 2 Rhagfyr 2024*

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth ar yr ateb, yn enghraifft o asesiad cyfweliad â chleient a nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol. Bydd gan yr ymgeiswyr 10 munud i ystyried yr e-bost a/neu'r dogfennau ac yna 25 munud i gynnal y cyfweliad â'r cleient. Yna byddant yn cael 25 munud i ysgrifennu, â llaw, nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol o'r cyfweliad y maent newydd ei gwblhau.

Am ragor o fanylion, gweler Manyleb Asesu SQE2.

**Sylwer bod y cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu cyhoeddi er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Fe welwch fod rhai termau Cymraeg yn yr asesiad hwn yn cael eu dilyn gan y term Saesneg cyfatebol mewn cromfachau. Yn ogystal, mae rhestr eirfa, sydd wedi'i chynnwys, wedi'i ffurfio o'r termau hynny.**

## E-bost at yr Ymgeisydd

| | |
|---|---|
| **Oddi wrth:** | Partner |
| **Anfonwyd:** | 5 Gorffennaf 202# |
| **At:** | Yr Ymgeisydd |
| **Pwnc:** | Megan Davies (Gareth Davies a fu farw) |

Mae Megan Davies yn gleient hirsefydlog ein cwmni ni. Roeddwn i fod i'w gweld hi heddiw ynglŷn ag ystad ei brawd, Gareth Davies. Yn anfoddus, mae profedigaeth yn y teulu wedi bod ac ni allaf fynd i'r cyfarfod. Cefais sgwrs fer gyda Megan y bore 'ma ac roedd hi'n hapus gyda fy awgrym y gelli di gynnal y cyfweliad ar fy rhan i.

Mae Megan eisoes wedi e-bostio copi o ewyllys Gareth ata'i, sydd wedi'i hatodi. Fe weli di yn yr ewyllys mai Megan yw un o ysgutorion Gareth. Mae hi'n bwriadu gweinyddu'r ystad heb ein cymorth ni, gan fod ganddi brofiad o weithredu fel ysgutor i'w dau riant.

Mae hi'n ein cyfarwyddo i roi cyngor cychwynnol iddi ar rai cwestiynau penodol sydd ganddi am ddosbarthu'r ystad a'r goblygiadau o ran Treth Etifeddiant. Rwy'n deall ei bod hi hefyd am ofyn a yw hi'n gallu gweithredu fel unig ysgutor.

Rwy' eisoes wedi cadarnhau i Megan bod yr ewyllys yn un ddilys, felly does dim angen i ti drafod dilysrwydd yr ewyllys â hi.

Bydda' i'n gweithio ar y ffeil gyda thi, felly yn dilyn eich cyfarfod, dylet ysgrifennu nodyn cyfarfod / dadansoddiad achos llawn sy'n nodi'r holl gyngor y dylem ni ei roi i'r cleient mewn perthynas â'r materion uchod, yn ogystal ag unrhyw faterion eraill y byddwch chi'n eu trafod yn y cyfarfod. Dylet hefyd gynnwys unrhyw ffeithiau allweddol, y camau nesaf i ni/y cleient, ac unrhyw faterion ymddygiad proffesiynol sy'n codi. Rwyf eisoes wedi gwneud nodyn o fanylion cyswllt y cleient, ac mae'r gwiriadau hunaniaeth angenrheidiol wedi'u cwblhau, felly does dim angen i ti boeni am y materion hynny.

Diolch

Partner

**ATODIAD:**
Ewyllys Gareth Davies

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Does dim angen i chi ddelio â materion gofal y cleient (gan gynnwys costau) na materion gwyngalchu arian,  ac ni ofynnir i chi wneud hynny.**

**Rhestr eirfa ar gyfer Cyfweliad a nodyn cyfarfod>Profiant**

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| fy rhagddywededig chwaer | my said sister |
| tenantiaid cydradd | tenants in common |
| yn ddiamod | absolutely |

**Dyma fy ewyllys olaf i GARETH DAVIES** o 22 Gerddi Pontyclun, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1LW a wnaed gennyf yr 2il ddydd hwn o Hydref 2019

1. Diddymaf bob Ewyllys a Chodisil blaenorol a wnaed gennyf i
2. Penodaf fy chwiorydd **ERIN DAVIES** a **MEGAN DAVIES** i fod yn ysgutorion i mi
3. Rhoddaf fy nghar 1973 Austin Mini Clubman i'm ragddywededig chwaer (my said sister) **MEGAN DAVIES**
4. Rhoddaf weddill fy ystad (ar ôl talu dyledion fy angladd a threuliau ewyllysiol a'r rhoddion a nodir uchod) i'm merch **FFION MORGAN** a'm cydweithiwr **OWAIN HUGHES** fel tenantiaid cydradd (tenants in common) mewn cyfrannau cyfartal yn ddiamod (absolutely)

Llofnodwyd gennyf i y rhagddywededig **GARETH DAVIES**

ym mhresenoldeb ein gilydd ac yna Gareth Davies

gennym ni yn ei bresenoldeb ef

Anton Hope

ANTON HOPE
26 Gerddi Pontyclun
Pen-y-bont yr Ogwr
Sir Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1LW

Joanne Cooper

JOANNE COOPER
24 Gerddi Pontyclun
Pen-y-bont ar Ogwr
Sir Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1LW

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Copi o'r ewyllys wreiddiol yw hwn. Gallwch gymryd yn ganiataol bod yr ewyllys wreiddiol wedi cael ei llunio yn unol â darpariaethau Adran 9 o Ddeddf Ewyllysiau 1837 a bod gan yr ewyllysiwr gapasiti ewyllysiol llawn.**

# Trafodaeth ar yr ateb: Cyfweliad

**Cyfweliad (Ewyllysiau a Diewyllysedd, Gweinyddu ac Ymarfer ym maes Profiant)**

**RECORDIAD O ENGHRAIFFT**

**Isod rhoddir recordiad sy'n enghraifft o berfformiad ymgeisydd (Saesneg). Mae'r recordiad yn enghraifft o ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg wedi pasio'r asesiad Cyfweliad â Chleient.**

**Nid yw'r recordiad yn ateb perffaith ac fe ellid gwneud pwyntiau pellach.**

**Mae dolen i'r recordiad yma:**

**Cyfweliad Llafar SQE2 Ewyllysiau a Diewyllysedd, Gweinyddu ac Ymarfer maes Profiant: Enghraifft o Berfformiad Ymgeisydd (Saesneg)**

**DADANSODDIAD**

***Pam ei bod hi'n glir bod yr ymgeisydd yn yr enghraifft wedi pasio'r asesiad?***

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ymgeisydd yn y recordiad o enghraifft yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer cyfweld fel a ganlyn:

***Sgiliau***

1. Gwrando ar y cleient a defnyddio cwestiynau'n effeithiol i alluogi'r cleient i ddweud wrth y cyfreithiwr beth sy'n bwysig iddi.
2. Cyfathrebu ac egluro mewn ffordd sy'n addas i'r cleient ddeall.
3. Ymddwyn yn broffesiynol a thrin y cleient yn barchus a chwrtais, gan gynnwys parchu amrywiaeth lle bo hynny'n berthnasol.
4. Canolbwyntio ar y cleient yn ei ymagwedd tuag at y cleient a'r materion (h.y. dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol).
5. Sefydlu a chynnal perthynas effeithiol â'r cleient er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder.

Mae hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod perfformiad yr ymgeisydd yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
|---|---|
| **Gwrando ar y cleient a defnyddio cwestiynau'n effeithiol i alluogi'r cleient i ddweud wrth y cyfreithiwr beth sy'n bwysig iddi** | Mae'r ymgeisydd yn gofyn cwestiynau i gael manylion penodol am Gareth (e.e. dyddiad ei farwolaeth) a gwybodaeth am ei deulu.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn ceisio cael eglurhad mewn ymateb i atebion y cleient, megis ynghylch ei chred na fydd gwraig Gareth am herio'r ewyllys, ac yn ailofyn am wybodaeth i wirio bod dealltwriaeth.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn osgoi torri ar draws y cleient, er ei fod weithiau'n cymryd pethau'n ganiataol yn ei gwestiynau (er enghraifft, bod Gareth yn sengl a bod Sammy'n byw gyda'i fam). |

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebu ac egluro mewn ffordd sy'n addas i'r cleient ddeall** | Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith sy'n hawdd i'r cleient deall yn gyffredinol, er enghraifft, wrth esbonio cadw ac ildio pwerau, neu Dreth Etifeddiant. |
| **Ymddwyn yn broffesiynol a thrin y cleient yn barchus a chwrtais, gan gynnwys parchu amrywiaeth lle bo hynny'n berthnasol** | Mae'r ymgeisydd yn trin y cleient yn barchus ac yn gwrtais, gan ddangos sensitifrwydd (am farwolaethau Gareth a Ffion, ac wrth esbonio am y rhodd o gar). Yn achlysurol, mae'n rhy anffurfiol ond nid yn anghwrtais.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at yr wybodaeth a ddarparir, gan ddangos ei fod e'n drefnus. Weithiau mae'n newid ei feddwl am yr hyn mae am ei drafod yng nghanol brawddeg, ond nid yw'n colli rheolaeth o'r cyfweliad. |
| **Canolbwyntio ar y cleient yn ei ymagwedd tuag at y cleient a'r materion (h.y. dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol).** | Mae'r ymgeisydd yn gwerthfawrogi bod gan y cleient brofiad o weithredu fel cynrychiolydd personol ac yn dymuno delio ag ystad ei brawd ei hun yn hytrach na defnyddio'r cwmni.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn deall perthnasoedd y teulu, gan gynnwys pam nad yw Erin am weithredu.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn ymddiddori yn holl bryderon y cleient ac yn mynd i'r afael â nhw i gyd (er y gallai'r cleient deimlo yr hoffai ragor o wybodaeth am sut i weithredu'r opsiynau a awgrymwyd ar gyfer yr hyn yr oedd hi am ei gyflawni). |
| **Sefydlu a chynnal perthynas effeithiol gyda'r cleient er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder** | Mae'r ymgeisydd yn rhoi sicrwydd i'r cleient ar bwyntiau y bydd yn dychwelyd atynt yn ystod y cyfweliad, ac mae'n dychwelyd at y pwyntiau hyn. Mae hefyd yn glir y caiff materion penodol eu cadarnhau'n ysgrifenedig.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn cynnig y camau a'r gweithredoedd nesaf i'r cleient, gan nodi y byddai'n hapus i helpu gydag unrhyw gwestiynau pellach neu'r broses o wneud cais, gan gynnal perthynas effeithiol. |

# Trafodaeth ar yr ateb:
# Nodyn cyfarfod / dadansoddiad cyfreithiol

## PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Sylwer nad oes angen yr union gyfeiriadau (e.e. darpariaethau Ddeddf Ewyllysiau 1837 na Deddf Treth Etifeddiant 1984).

**Ysgutorion**

- Ystyried a oes unrhyw opsiynau ar gael i Erin fel ysgutor mewn amgylchiadau lle nad yw hi am weithredu.
- Nodi a all Megan weithredu ar ei phen ei hun fel ysgutor os nad yw Erin yn gweithredu.

**Dehongliad y rhodd o’r car**

- Ystyried y math o rodd a wneir o’r car yn yr ewyllys.
- Nodi’r canlyniadau i Megan (fel buddiolwr y rhodd) o’r car yn cael ei werthu cyn marwolaeth Gareth.

**Dosbarthu'r ystad**

- Ystyried y telerau sy’n sail ar gyfer dal yr ystad weddilliol i Ffion ac Owain ac unrhyw ddarpariaethau amnewid lle mae’n cael ei dal mewn cyfrannau cyfartal ac mae’r ddau ohonynt wedi marw cyn Gareth.
- Nodi sut y bydd cyfrannau gweddilliol Ffion ac Owain ill dau yn pasio.

**Treth Etifeddiant**

- Nodi ystad drethadwy Gareth.
- Ystyried y bandiau dim treth sydd ar gael ac unrhyw esemptiadau sydd ar gael.
- Nodi’r gyfradd dreth briodol i ystad Gareth.

## ENGHRAIFFT O ATEB

Enghraifft yw hyn o ateb ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg yn cyflawni gofynion cymhwysedd yr asesiad nodyn cyfarfod / dadansoddiad cyfreithiol. Nid yw hwn yn ateb perffaith nac yn ateb model ac fe ellid bod wedi gwneud

pwyntiau pellach.

Sylwer y gall ymgeiswyr ymgorffori nodiadau a wnaed yn ystod eu hamser paratoi a/neu'r cyfweliad trwy gyfeirio atynt wrth ysgrifennu eu nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol: Mae’r atebion enghreifftiol wedi’u cyflwyno fel un ddogfen, heb gyfeirio at nodiadau’r cyfweliad, er hwylustod darllen.

**Enghraifft o Ateb**

Cyfarfod â Megan Davies ynghylch ystad ei brawd a fu farw – Gareth Davies.

**Yr ymadawedig**

Dyddiad geni: 2 Chwefror 1963
Dyddiad marwolaeth: 5 Mehefin 2024
Plymer
Mae Megan yn sicr mai dyma ewyllys olaf Gareth (dywedwyd ei bod yn ddilys).
Marwolaeth yn sioc.

**Teulu**

Mae gan y chwaer Erin broblemau iechyd yn ddiweddar – bydd yn gweithredu os bydd angen. Mae’r cleient am wybod a all hi weithredu ar ei phen ei hun.

Gareth yn briod â Lowri Davies. (Yn fodlon â thelerau’r ewyllys – roedd Gareth wedi trafod â hi. Mae ganddi incwm pensiwn da. Nid yw’r cleient yn meddwl y bydd hi na neb arall yn herio’r ewyllys.)

Roedd gan y pâr un ferch – Ffion – sy’n fuddiolwr gweddilliol – bu farw hithau’r llynedd (17 Mai 2023, yn 40 oed). Mae hi’n gadael gŵr Dylan a merch Bethan. Dim plant eraill.

Bu farw Owain ym mis Tachwedd 2023 (ansicrwydd ynghylch y dyddiad) – prentis Gareth o 16 oed, ac fel mab iddo. Mae mab Owain, Sammy, yn 3 oed. Gwahanodd Owain a mam Sammy ychydig ar ôl iddo gael ei eni. Nid oeddent wedi priodi. Mae Sammy yn byw gyda’i dad-cu a’i fam-gu.

Mewn perthynas â theulu ehangach Gareth, dim ond Erin a’r cleient sydd. Bydd Erin yn gweithredu os bydd angen iddi ond byddai’n well ganddi beidio oherwydd salwch diweddar. Gofynnais a wnaeth Erin gymryd unrhyw gamau i ddelio â’r ystad a dywedodd y cleient nad oedd hi wedi (dim ymyrryd). Esboniais fod hyn yn dda oherwydd gallai gamu i ffwrdd yn gyfan gwbl (drwy ildio) neu am gyfnod yn unig gyda’r opsiwn i ddychwelyd ar ddyddiad hwyrach.

## Asedau a dyledion

**Asedau**

Tŷ / tir

Roedd y tŷ yr oedd yr ymadawedig a'i wraig yn byw ynddo wedi'i rentu – erioed wedi perchen ar eiddo.  Mae Lowri'n parhau i fyw yno ac yn talu'r biliau.

Cyfrifon banc

- Cyfredol Barclays £25k ef ei hun.
- Cynilo Lloyds £52k ef ei hun.
- Santander £1k cyd-gyfrif â Lowri.

(Banciau heb eu hysbysu am y farwolaeth.)

Buddsoddiadau

250 o gyfrannau yn Tesco.  Gwerth yn ôl y cleient yn ôl Google - £1,650.
Stociau a chyfrannau ISA £8,000.

Cynnwys yr aelwyd / siatelau

Cleient yn ansicr.  Prin oedd ganddo – dim ond ffôn symudol mewn gwirionedd. Rhentwyd yr eiddo heb ddodrefn.  Mae'r cleient yn meddwl mai gwerth y cyd-gynnwys yw £3,000.

Gwerthwyd y car yn yr ewyllys ychydig o wythnosau yn ôl a rhoddwyd y £4,000 o enillion yn sgil y gwerthiant i'r cleient fel arian parod mewn amlen gan Lowri.  Mae'r cleient am wybod a oes hawl ganddi iddo.

**Dyledion**

Dim ôl-ddyledion rhent.
Amwynderau ar y cyd – Lowri.
Cerdyn credyd Tesco - £900.

**Pensiynau / yswiriant bywyd / marw yn y swydd**

Gofynnais am bensiynau ac yswiriant bywyd ac roedd ganddo swm marw yn y swydd yn unig o £45,000  a bydd Lowri'n derbyn pensiwn gwraig weddw gwerth £7,500.

**Cyngor**

1. Arian a dderbyniwyd am y car

Dwedais wrth Megan na allai hi gadw'r arian gan fod y rhodd am y car yn benodol i'r car yn unig ac mae'r arian yn yr amlen yn rhan o'r ystad weddilliol.

2. Gweddillion

Holodd y cleient am hawl i'r gweddillion.  Maent wedi'u rhannu rhwng Ffion ac Owain. Does dim darpariaeth ar gyfer amnewid yn yr ewyllys.  Mae rheolau gwahanol yn berthnasol oherwydd bod Ffion yn perthyn i Gareth.  Dywedais i y byddwn i'n gwirio ond roeddwn i'n meddwl y byddai cyfran Ffion y pasio i Bethan (a.33).  Mae rheolau diewyllysedd yn berthnasol i gyfran Owain, a fyddai'n pasio i Lowri, sydd â'r hawl gyntaf (gwraig sydd wedi goroesi o 30 o ddiwrnodau).  I'w gadarnhau'n ysgrifenedig. (Cyngor i gadarnhau y caiff yr arian mewn amlen ei rannu yn unol â'r gweddillion.)

3. Treth Etifeddiant (IHT)

Mae'r cleient yn poeni am IHT.  Gwnaed rhodd oes ym mis Ebrill 2021 – rhoddodd Gareth £150,000 i Ffion.  Rhodd a gadarnhawyd – i helpu i brynu tŷ (o etifeddiant y derbyniodd Gareth yn dilyn marwolaeth ei fam).  Dim rhoddion eraill o bwys.

Mae pob ystad yn cael band dim treth (NRB), ond mae hyn yn cael ei leihau gan werth unrhyw roddion o fewn 7 blynedd hyd at farwolaeth Gareth (£150,000).  Ddim yn credu bod IHT yn daladwy ond cynghorais y cleient y gallai hyn newid os bydd unrhyw asedau neu roddion yn dod i'r amlwg.

Dywedais y byddwn yn anfon adroddiad IHT llawn ar ôl y cyfarfod.  (Adroddiad i gadarnhau y dylid cynnwys gwerth yr NRB ar £325,000 heb y rhodd o £150,000. Hefyd, cadarnhau i'r cleient mai'r term yw nil rate band (dw i'n credu y gwnes i gamgymeriad yn y cyfarfod a dweud "nil band rate".)

**Y camau nesaf**

- Dywedais y byddwn yn anfon llythyr yn ystod y diwrnodau nesaf i gadarnhau'r uchod.
- Bydd angen prisiadau ffurfiol i ddechrau'r cais am brofiant – bydd Megan yn gwneud hynny.
- Bydd hi'n cysylltu eto os bydd angen mwy o help arni. (Wedi ymdrin ag ystadau ei rhieni.)

**DADANSODDIAD**

***Pam ei bod hi'n glir bod yr ateb enghreifftiol wedi pasio'r asesiad?***

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ymgeisydd yn recordiad o enghraifft yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer y nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol fel a ganlyn:

**Sgiliau**

1. Cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol.
2. Nodi'r camau nesaf priodol.
3. Rhoi cyngor sy'n dangos ffocws ar y cleient (h.y. cyngor sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol).

**Cymhwyso'r gyfraith**

4. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient.

5. Cymhwyso'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Roedd hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod yr ateb enghreifftiol yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
|---|---|
| **Cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol** | Mae'r ymgeisydd wedi cynnwys ffeithiau allweddol a amlinellwyd yn y dogfennau asesu ac a gofynnwyd amdanynt yn y cyfweliad â'r cleient, megis manylion teulu a pherthnasoedd Gareth, yn ogystal â'i asedau a'i atebolrwydd.<br><br>Mae'r ymgeisydd hefyd wedi canfod y gwerthodd Gareth y car 1973 Austin Mini Clubman am £4,000, |

| | |
|---|---|
| | a bod Gareth wedi rhoi rhodd fawr i Ffion ym mis Ebrill 2021. |
| **Nodi'r camau nesaf priodol** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi y bydd yn ysgrifennu at Megan yn cadarnhau'r cyngor.<br><br>Mae'r ymgeisydd hefyd wedi nodi cam y gallai Megan ei gymryd. |
| **Rhoi cyngor sy'n dangos ffocws ar y cleient** | Mae'r ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth o bryderon y cleient o safbwynt y cleient; er enghraifft, bod Megan am wybod os gall hi weithredu ar ei phen ei hun oherwydd nid yw Erin wedi bod yn iach.<br>Mae'n mynd i'r afael â holl bryderon Megan ac yn cydnabod nad yw'r cleient yn disgwyl perthynas barhaus â'r cwmni ar ôl derbyn y cyngor hwn. |
| ***MEINI PRAWF CYFREITHIOL*** | |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient.<br>Er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi nodi nad oes yn rhaid i Erin weithredu fel ysgutor, a bod y rhodd o'r car yn methu oherwydd bod y rhodd yn benodol i'r car. |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | Mae cyngor yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau'r achos. Er enghraifft, mae cyngor yr ymgeisydd wedi esbonio pam mae cyfran Owain yn pasio o dan reolau diewyllysedd ond nid yw cyfran Ffion. Mae'r ymgeisydd hefyd yn esbonio bod y rhodd oes yn lleihau'r band dim treth. |